

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd
DYDDIAD	29 Tachwedd 2016
PWNC	Datblygiad "Modgov" o fewn y Cyngor
PWRPAS	Diweddarau'r aelodau ar y gwaith mwyaf diweddar a gwahodd barn ar faterion i gael sylw
AWDUR	Arwel E Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol)

CEFNDIR

1. Mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio meddalwedd "Modern.gov" ar gyfer cefnogi gwaith ym maes Democratiaeth ers dros flwyddyn nawr. Mae hyn yn golygu paratoi a dosbarthu rhaglenni, adroddiadau a chofnodion a'u cyhoeddi ar Wefan y Cyngor.
2. Fel yr esboniwyd o'r blaen i'r pwyllgor hwn, roedd hyn yn golygu llawer iawn o waith caled i'r staff proffesiynol sydd yn gweithio yn y maes a chydweithrediad swyddogion Tim y Wefan a'r Uned Technoleg Gwybodaeth. Carwn gofnodi'n gyhoeddus fy niolchgarwch iddynt am eu gwaith parod ac effeithiol yn ei gyflwyno.

Y DEFNYDD A WNEIR OHONNO

3. Y prif ddefnydd a wêl aelodau ohonno yw'r "app" sydd ar gael i'w ddefnyddio ar lechi'r aelodau er mwyn iddynt dderbyn y rhaglenni pwyllgorau perthnasol. Mae sawl mantais i'r "app" hwn. Yn gyntaf, unwaith y mae aelod wedi tansysgrifo i dderbyn rhaglen, mae'n dod ar y llechen yn otomatig heb i aelod orfod ei lawrlwytho. Yn ail, mae modd symud llawer yn fwy hwylus o gwmpas y rhaglen nad wrth ddefnyddio meddalwedd cyffredinol a hefyd wneud nodiadau a marcio papurau lle y mae'r aelod yn dymuno nodi pwynt penodol er mwyn ei godi mewn cyfarfod.
4. Erbyn hyn, mae 40 o'r 75 aelod yn derbyn eu rhaglenni yn y ffordd hwn ac, ar sail yr hyn yr wyf yn ei glywed, yn ei werthfawrogi yn fawr iawn. Yn amlwg, byddwn yn canolbwyntio bellach ar baratodau ar gyfer yr etholiad nesaf gan obeithio y bydd hynny'n cyfarch un broblem a gafwyd, gan y byddwn yn medru llwytho'r meddalwedd ar yr offer y bydd cynghorwyr yn ei dderbyn cyn iddynt ei gael
5. Y prif ddefnydd cyhoeddus yw bod Modgov bellach yn rheoli'r darn o'r Wefan sydd yn ymwneud ag "Y Cyngor" a'r holl gynnwys am ddemocratiaeth sydd yn ymddangos ar y Wefan o dan y pennawd hynny. Mae hynny wedi llyfnhau'r broses o lwytho deunydd ar y Wefan ac hefyd wedi golygu bellach ein bod yn medru cyhoeddi llawer mwy o wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth am aelodau unigol, yn cynnwys eu lefelau presenoldeb.
6. Yn dilyn sylwadau gan aelodau, rydym wedi gwneud addasiadau yn y misoedd diwethaf ac mae'r newidiadau hynny yn golygu bellach bod y wybodaeth bresenoldeb i gynnwys presenoldeb mewn cyfaraodydd paratoi, ymchwiliadau craffu a fforymau ardal.

Y CAMAU NESAF

7. O fod wedi buddsoddi yn y system hon a, gan dderbyn ei fod eisoes wedi profi ei werth, rydyj ar hyn o bryd yn edrych ar sut i'w ddatblygu ar gyfer y dyfodol. Yn amlwg, gyda systemau o'r fath, mae amryw o elfennau y meddir eu datblygu a byddem yn dymuno derbyn sylwadau gan aelodau am elfennau y byddent yn dymuno gweld yn cael eu datblygu yn y dyfodol.
8. Rydym eisoes yn trafod defnyddio Modgov ar gyfer hwyluso canlyniadau Etholiad 2017 ac yn edrych ar hyn o bryd hefyd am ymestyn defnydd y system i gyfarfodydd sydd ddim yn gyhoeddus er mwyn medru defnyddio'r "app" i anfon papurau i'r aelodau. Materion eraill sydd yn cael sylw yw cynnwys manylion hyffordiant aelodau yn y manylion presenoldeb, ceisio integreiddio'r drefn rhaglenni gyda dyddiaduron Outlook aelodau a gwella'n defnydd o allu blaen-raglenni ac atgoffa Moderngov er mwyn gwella ein trefn o atgoffa swyddogion o amserlenni adroddiadau a thracio eitemau.
9. Gwahoddir sylwadau aelodau ar y math o ddatblygiadau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt dros y cyfnod nesaf.